## Rhybudd Ras – WSR Cynghrair y Gogledd




# Clwb Rhwyfo Beaumaris

## Sul 12ed Mai, 2024

**09.00 - 10.00** Cofrestru yng Nghlwb Hwylio Brenhinol Ynys Môn, Green Edge, Beaumaris, LL58 8BY.

**09:00** ymlaen Brecwast a lluniaeth ysgafn ar gael i fyny'r grisiau yng Nghlwb Hwylio Brenhinol Ynys Môn.

**10.15** Briffio Cocsys i lawr grisiau yn y bar yn y Clwb Hwylio.

**11:00** Ras gyntaf yn cychwyn

**Categoriau Ras** Merched, Hŷn, Nofis a Cymysg;
Categorïau Hŷn, Fet ac UwchFet ar gyfer cychod hir Celtaidd.
Croesawir cychod sgwl Sengl, Dwbwl a Phedwar

**Wedi'r rasio** Cinio i fyny grisiau a bar i lawr grisiau yn CHBYM. Dilyn ir gyda'r canlyniadau a chyflwyno'r gwobrau.

**Ffi mynediad:** Oedolyn £8 pob aelod o'r criw (£40 am bob cwch Celtaidd), yn cynnwys bwyd wedi'r ras. Aelodau iau am ddim.

**Penderfyniad cyn y ras:** 1300, Sadwrn, 11eg May.

**Penderfyniad olaf:** 0700, Sul, 12ed Mai (Swyddog y Ras).

**Ceir ffurflen mynediad arlein yma.** Am gopi caled neu copi ar ebost â Gwen ar brclubsec@gmail.com

**Ysgrifennydd y Ras:** Gwen Beeken, 07786 233 767 brclubsec@gmail.com

**Swyddog y Ras:** Steve Watson-Jones, 07773 317 993, stephenwatsonjones@icloud.com

**Rheolwr Badau Diogelwch:** Guy Williams, 07793 152 823

**Swyddog Diogelwch:** Antony Robinson, 07877 876 780

## NODIADAU

1. Cynhelir y rasys o dan Reolau Rasio Welsh Sea Rowing - Rhwyfo Môr Cymru.

2. Mae'r orsaf cymorth cyntaf yn Nghlwb Hwylio Brenhinol Ynys Môn

3. Ni chaniateir cylchdroi criw yn ystod y ras.

4. **OFFER DIOGELWCH AR Y DŴR**
   Mae gan bob criw gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau bod eu cwch yn addas i'r môr, yn cario rhaff halio gadarn a bod ganddo o leiaf un sbydwr mawr, pecyn cymorth cyntaf, blancedi goroesi, bag taflu, ynghyd â chyfarpar diogelu personol addas ar gyfer amodau disgwyliedig sydd hefyd yn cynnwys siaced achub neu gymorth hynofedd ar gyfer pob aelod o'r criw.
   Mae radio VHF sy'n gweithio a chwiban yn orfodol, cynghorir bod pob cwch yn cario ffôn symudol wedi'i wefru'n llawn o fewn cwdyn gwrth-ddŵr. Dylech roi'r rhif ffôn a'ch enw wrth gofrestru. (Os oes angen i chi fenthyg vhf, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Ras ymlaen llaw.) Gellir cynnal hapwiriadau cyn y lansiad.

5. **ARLWYO**
   Bydd cinio am ddim i'r sawl sy'n cystadlu.
   Gall cefnogwyr brynnu cinio am £4 wrth nodi eu bwriad ger y bwrdd cofrestru hyd at 10.30am.

6. **TALIADAU**
   Y taliad a ffefrir yw trwy drosglwyddiad banc
   Manylion banc 54-10-01   rhif cyfrif: 88609847

   Cyfeirnod: Clwb, enw'r cwch
   Gellir talu am docynnau cinio hefyd trwy drosglwyddiad banc
   Cyfeirnod: Clwb, enw, nifer y tocynnau.

7. **CYRRAEDD BEAUMARIS**
   Parciwch a dadlwythwch eich trelar ar y Marian ger Cerrig yr Orsedd. Mae mynediad i'r man yma drwy'r llwybr ger yr orsaf RNLI.
   Bydd y giât ar agor o 0800 ddydd Sul.
   Os am fynediad ar unrhyw adeg arall plis cysylltwch ag Ysgrifennydd CRhB, Gwen, 07786 233767.
   Mae'n ofynnol gan Gyngor Tref Beaumaris bod pob cerbyd tynnu yn parcio yn y prif faes parcio ar y Marian lle bydd ffi am barcio. Mae rhywfainty o lefydd parcio stryd (hyd at awr) ond mae Beaumaris yn leoliad prysur iawn.
   Os oes angen lleoliad i gadw cychod ar y nos Sadwrn, cysylltwch ag ysgrifennydd y ras.
   Sicrhawch eich bod yn ymweld â'r ddesg gofrestru rhwng 0900 a 1030 er mwyn nodi eich bod wedi cyrraedd (os yr ydych eisoes wedi talu a chofrestru) neu er mwyn cwblhau eich ffurflen gofrestru fore Sul.

8. **CLWB HWYLIO BRENHINOL YNYS MÔN**
   Bydd y clwb hwylio ar agor i'ch croesawu o 8yb ar y bore Sul gyda brecwast, te, coffi a chacen ar gael hyd nes bod cinio yn cael ei weini.
   Bydd y bar ar agor o hanner dydd ymlaen.
   Mae gan y clwb hwylio doiledau a chawodydd sydd ar gael i ymwelwyr eu defnyddio.

9. **YR ARDAL EHANGACH**
   **GWERSYLLA:**
   Mae Maes Carafanio Kingsbridge tua 1.5 milltir tu allan i Beaumaris gyda lleoliad ar gyfer carafan, fan neu pabell.
   www.kingsbridgecaravanpark.co.uk
   info@kingsbridgecaravanpark.co.uk

   Mae Plas Yn Llangoed yn faes gwersylla Eco Wyrdd gyda lleoliadau ar gyfer pebyll, fania a phebyll mawr sydd eisoes wedi eu gosod. Mae Llangoed tua 3 milltir o Beaumaris.
   https://plascamping.org/
   info@plascamping.org

   **GWESTAI**
   Mae'r Bull Hotel yn dafarn llawn cymeriad gydag ystafelloedd a llety ychwanegol yn y Coach House
   https://www.inncollectiongroup.com/bulls-head-inn/
   Tel : 01248 810329

   Mae'r Castle Court o fewn tafliad carreg i'r Clwb Hwylio ac wedi cael ei atgyweirio yn ddiweddar iawn.
   https://www.castlecourtbeaumaris.co.uk/
   Tel : 01248 810078

   Mae'r Bishopsgate Hotel yn westy clasurol mewn ty trefol Sioriad ar y brif stryd.
   http://www.bishopsgatehotel.co.uk/
   Tel : 01248 810302

   Mae sawl llety Gwely a Brecwast a llety gwyliau yn y dref yn ogystal a'r Premier Inn sydd wedi ei leoli ar y tir mawr ger Plas Menai.

   **BWYTA**
   Mae sawl opsiwn yn y dref gan gynnwys y Bull a'r Bishopsgate (gweler uchod), y George and Dragon, caffi'r Pier House, bar tapas y Midland, dwy siop sglodion, ty bwyta Indiaidd ac hefyd y Red Boat ar gyfer eich hufen iâ!
   Mae'r dref yn tueddu i fod yn brysur felly byddem yn argymell cysylltu o flaen llaw er mwyn sicrhau bwrdd.

10. **DŴR**
    Dewch â'ch poteli ailgylchadwy, mae gorsaf ddŵr llenwi am ddim yng nghlwb hwylio RAYC


Margaret St
Chapel St
Little Ln
Church St
Beaumaris Castle
The Midland Tapas and Wine Bar
The Bull's Head Inn, Beaumaris
Booking.com - Hotels
Booking.com - Hotels
Alma St
Seacoast Safaris - Puffin Island Boat Trips
Beaumaris Sea Front